berthnasol i bob gweithiwr, yn cynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi'n achlysurol heb gontract ysgrifenedig, y rhai sy'n gweithio o gartref a'r rhai sy'n cael eu talu drwy gomisiwn. Gwiriwch eich hawl i'r isafswm cyflog drwy ffonio'r llinell gymorth ar **0845 6000 678**.

Beth os bydd fy nghyflogwr yn dweud y bydd yn talu gweddill fy nghyflog drwy 'fuddiannau mewn da'?

Ceir rheolau llym ynglŷn â buddiannau mewn da a'r isafswm cyflog. Mae rhai swyddi yn cynnig buddiannau yn ogystal â thâl drwy gyflog, megis llety a phrydau bwyd am ddim neu ddisgownt ar gynnyrch y cwmni. Yr unig fudd y gall y cyflogwr ei gyfrif yn erbyn yr isafswm cyflog yw llety. Ceir rheolau arbennig ar gyfer cyfrifo gwerth eich llety sy'n cyfrif tuag at yr isafswm cyflog.

Beth os nad wyf yn derbyn yr isafswm cyflog cenedlaethol?

Mae diffyg cydymffurfiaeth â'r isafswm cyflog yn fater difrifol iawn i'r Llywodraeth ac mae wedi sefydlu corff gorfodi er mwyn delio â phob cwyn. Felly os nad ydych yn cael eich talu'r hyn y mae gennych hawl iddo, ffoniwch y llinell gymorth ar 0845 6000 678 (codir cyfraddau lleol am alwadau). Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, gall ffrind neu aelod o'r teulu ffonio ar eich rhan. Neu gallwn drefnu i chi siarad drwy gyfieithydd.

Fel arall, gallwch gysylltu â Chanolfan Cyngor ar Bopeth, undeb llafur, uned cyflogau isel neu unrhyw ganolfan gyngor, a fydd yn eich cynghori ynglŷn â mynd â'ch achos i dribiwnlys cyflogaeth.

Fodd bynnag yn y rhan fwyaf o achosion, byddem yn eich cynghori i ffonio ein llinell gymorth uniongyrchol. Ni fydd rhaid i chi roi eich enw ond os byddwch am i'n swyddogion fynd ar drywydd eich tandaliadau, bydd rhoi eich enw a'ch manylion cyswllt yn eu helpu. Mae'n bosibl y bydd rhaid iddynt roi eich enw i'ch cyflogwr yn ddiweddarach yn y broses orfodi (e.e. wrth fynychu tribiwnlys cyflogaeth ar eich rhan) ond ni fyddant yn gwneud hyn heb ofyn i chi yn gyntaf.

Sut gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Cysylltwch â'r llinell gymorth isafswm cyflog ar **0845 6000 678** i ofyn cwestiynau, gofyn am gyngor cyfrinachol neu i roi gwybod am dandaliad. Caiff y llinell ei rhedeg gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar ran Yr Adran Masnach a Diwydiant.

Codir cyfraddau lleol am alwadau. Er mwyn ein helpu i wella ansawdd ein gwasanaeth, mae'n bosibl y caiff eich galwad ei monitro neu ei recordio, at ddibenion hyfforddiant mewnol yn unig.

Fel arall, gallwch anfon llythyr i minimum wage enquiries, Freepost, PHQ1, Newcastle upon Tyne, NE98 1ZH neu ewch i wefan isafswm cyflog Yr Adran Masnach a Diwydiant yn: **http://www.dti.gov.uk/er/nmw** (Gwybodaeth yn Saesneg yn unig.)

I bobl yn Lloegr, mae manylion am lefelau isafswm enillion i brentisiaid ar gael gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau drwy ei linell gymorth ar **0870 900 6800**.

Os hoffech gael copïau o Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 a'r Rheoliadau Isafswm Cyflog Cenedlaethol dilynol, ffoniwch linell Seneddol y Llyfrfa ar **0845 7023 474**.

Bwriedir i'r wybodaeth yn y daflen hon ddarparu canllaw cyffredinol yn unig. Ni ddylid ei hystyried fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.

Cynhyrchwyd y canllaw hwn ar y cyd â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu gydag isafswm sgôr HMSO o 75.
Cyhoeddwyd y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2002.
Yr Adran Masnach a Diwydiant: http://www.dti.gov.uk
ⓗHawlfraint y Goron. DT/Pub 8000/0.5k/09/05/AR. URN 05/1488W

dti

ISAFSWM CYFLOG CENEDLAETHOL

Canllaw byr i weithwyr ifanc

ADOLYGWYD YM MIS HYDREF 2005

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r isafswm cyflog neu os ydych yn credu nad ydych yn derbyn y swm cywir o gyflog, ffoniwch y llinell gymorth isafswm cyflog ar:

0845 6000 678

Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, gall ffrind neu aelod o'r teulu ffonio ar eich rhan. Neu gallwn drefnu i chi siarad drwy gyfieithydd.

dti

Yr Adran Masnach a Diwydiant sy'n llywio ein huchelgais 'ffyniant i bawb' drwy weithio i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer llwyddiant busnes yn y DU. Rydym yn helpu pobl a chwmnïau i fod yn fwy cynhyrchiol drwy hybu menter, arloesedd a chreadigrwydd.

Rydym yn hyrwyddo busnesau'r DU yma a thramor. Rydym yn buddsoddi yn helaeth mewn gwyddoniaeth a thechnoleg o'r radd flaenaf. Rydym yn diogelu hawliau gweithwyr a defnyddwyr, ac rydym yn cefnogi marchnadoedd teg ac agored yn y DU, Ewrop a'r byd.

Os ydych yn 18-21 oed (yn cynnwys yr oedrannau hyn) ac yn gweithio, yna £4.25 yr awr yw'r lleiaf y gallwch ei ddisgwyl.

Os ydych o dan 18 oed ac yn gweithio (a'ch bod yn hŷn na'r oedran gadael ysgol gorfodol) yna £3.00 yr awr yw'r lleiaf y gallwch ei ddisgwyl.

Beth yw'r isafswm cyflog cenedlaethol?

Yr isafswm cyflog yw'r isafswm lefel o gyflog y mae gan bron pob gweithiwr yn y DU hawl cyfreithiol iddo. Daeth y gyfraith hon i rym ar 1 Ebrill 1999. Ar **1 Hydref 2005** cynyddwyd yr isafswm cyfradd fesul awr ar gyfer pobl 18-21 oed (yn cynnwys yr oedrannau hyn) i £4.25 yr awr, o £4.10 yr awr.

Beth am bobl o dan 18 oed?

Ar **1 Hydref 2004** cyflwynwyd cyfradd newydd ar gyfer gweithwyr o dan 18 oed nad ydynt o oedran gadael ysgol gorfodol. Y gyfradd hon yw £3.00 yr awr.

Bydd eich cyflogwr yn torri'r gyfraith os na fydd ef neu hi yn talu'r swm y mae gennych hawl iddo.

Pam bod cyfraddau is ar gyfer pobl ifanc?

Mae'r Llywodraeth yn derbyn cyngor gan gorff annibynnol sef y Comisiwn Cyflogau Isel ar lefel cyfraddau cyflog. Canfu'r Comisiwn bod lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc yn dueddol o fod yn uwch mewn gwledydd lle mae hawl gan bob gweithiwr, waeth beth fo'u hoedran, i'r un isafswm cyfradd. Y rheswm am hyn yw bod cyflogwyr yn dueddol o recriwtio pobl hŷn, sydd wedi eu hyfforddi'n llawn neu weithwyr mwy profiadol os nad oes isafswm cyfradd is ar gyfer pobl o dan oedran penodol.

Cofiwch mai dim ond yr isafswm cyfreithiol yw'r cyfraddau ar gyfer pobl ifanc. Gall cyflogwyr dalu mwy na'r isafswm cyflog a byddant yn gwneud hynny yn aml.

A yw'r isafswm cyflog cenedlaethol yn berthnasol ar gyfer prentisiaid a hyfforddeion?

Mae'r isafswm cyflog yn berthnasol i weithwyr. Mae hyn yn golygu pobl sy'n gweithio o dan gontract i gyflogwr. Fodd bynnag, ceir llawer o wahanol fathau o hyfforddeion sy'n gweithio o dan gontract i gyflogwr. Mae rheolau gwahanol yn berthnasol yn dibynnu ar y math o hyfforddai.

Mae pobl ar gynlluniau cyn lefel prentisiaeth yn cael eu heithrio o'r isafswm cyflog. Mae prentisiaid 16-18 oed yn cael eu heithrio o'r isafswm cyflog ond mae prentisiaid 19 oed a throsodd yn gymwys i gael yr isafswm cyflog ar ôl deuddeng mis cyntaf eu prentisiaeth.

I gael gwybodaeth am y mathau penodol o hyfforddeion cysylltwch â'r llinell gymorth isafswm cyflog ar **0845 6000 678**.

Lefel isafswm enillion ar gyfer prentisiaid

Yn Lloegr, ers 1 Awst 2005 cyflwynodd y Cyngor Sgiliau Dysgu ofyniad cytundebol i ddarparwyr hyfforddiant gyflwyno lefelau isafswm enillion ar gyfer prentisiaid cyflogedig. Yr isafswm cyfradd wythnosol a bennwyd yw £80, cyfradd o £2.29 yr awr ar gyfer wythnos 35 awr. Dylai prentisiaid rhan amser dderbyn yr un lefel pro rata i'w horiau. **Nid yw'r gofyniad hwn yn rhan o'r isafswm cyflog cenedlaethol.**

Beth os yw fy nghyflogwr am i mi weithio am lai na'r isafswm cyflog cenedlaethol?

Os oes gennych hawl i'r isafswm cyflog, rhaid i'ch cyflogwr ei dalu i chi. Os na fydd ef neu hi yn gwneud hynny, mae eich cyflogwr yn torri'r gyfraith.

Beth os yw fy nghyflogwr yn dweud nad oes gennyf hawl i'r isafswm cyflog cenedlaethol gan fy mod yn gweithio'n rhan amser?

Nid yw'n gwneud gwahaniaeth p'un a ydych yn gweithio'n rhan amser neu'n amser llawn. Mae'r gyfraith yn